**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mawrth 14 Mai 2024, 4pm-5pm**
**Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, Heol Penalun, Caerdydd, CF5 5XP**

**Cyfarfod Eithriadol ar y Cyd gyda Grŵp Gweinidogol**
**Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau**

| | |
|---|---|
| **<u>Yn bresennol:</u>** | |
| | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| (Cadeirydd) | Prif Weithredwr, CC |
| Paul Orders | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| Claire Beynon | Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| | Pennaeth Partneriaethau Strategol ac Ymgysylltu, BIP Caerdydd a'r |
| Sarah Tipping | Fro |
| Gareth Evans | Ymgynghorydd Diogelwch Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Andy Robinson | (GTADC) |
| | Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd, Canol De Cymru, Cyfoeth Naturiol |
| Mark Atwell | Cymru (CNC) |
| Lee Jones | Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC) |
| | Prif Weithredwr a Swyddog Monitro, Comisiynydd Heddlu a |
| Dan Jones | Throseddu De Cymru (CHThDC) |
| Zenny Saunders | Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais, HDC |
| | Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, |
| Eirian Evans | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| | Pennaeth Uned Gyflenwi Prawf (UGP) y Gwasanaeth Prawf |
| | Cenedlaethol (GPC) |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| June Hutt AoS | |
| Paul Dear | Trefnydd a'r Prif Chwip |
| Danny Richards | Dirprwy Gyfarwyddwr, Adran Cymunedau Cydlynol, LlC |
| Kailee Carella | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, HDC |
| Edeb Akotia | Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) |
| Becky Matyus | Rheolwr Canolfan Gwirfoddolwyr |
| Michelle Powell | Gweithredu yng Nghaerau a Threlái |
| Mike Tate | Gweithredu yng Nghaerau a Threlái |
| Rhys Prichard | Pennaeth Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd |
| Soraya Kelly | Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin |
| Huw Powell | Caerdydd |
| Gareth Newell | Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd/The Gloves are On |

| | |
|---|---|
| Sian Sanders | Pennaeth Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog |
| Suzanne Scarlett | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| Abigail Streeter | Pennaeth Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol, CC |
| | Rheolwr Perfformiad a Phartneriaethau, CC |
| **Ymddiheuriadau:** | Swyddog Cynllunio a Gwella, CC |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | |
| Suzanne Rankin | |
| Marie Davies | Cadeirydd, BIP Caerdydd a’r Fro |
| Huw Williams | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a’r Fro |
| Huw Jakeway | Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio Dros Dro, BIP Caerdydd a’r |
| David Letellier | Fro |
| Martyn Stone | Arweinydd Grŵp Clwstwr De-orllewin Caerdydd, BIP Caerdydd a’r |
| Sheila Hendrickson-Brown | Fro |
| David Jones | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| | Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru, CNC |
| Kim Fisher | Prif Uwch-arolygydd, HDC |
| Hazel Cryer | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Y Canon Jan Gould | Uwch Reolwr Polisi Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb, |
| | Adran Cymunedau Cydlynol, LlC |
| | Pennaeth Ysgol Gynradd Windsor Clive |
| | Gweithredu yng Nghaerau a Threlái |
| | Eglwys yr Atgyfodiad, Trelái |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso**<br><br>Croesawodd y Cynghorydd Huw Thomas a'r Gweinidog Jane Hutt gydweithwyr i gyfarfod ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Grŵp Gweinidogol a sefydlwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau.<br><br>Cydnabuwyd bod y digwyddiadau ym mis Mai 2023 wedi peri gofid i bawb ac ysgogi ymdeimlad o ysbryd cymunedol a phenderfyniad i ddod at ein gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn Nhrelái a Chaerau.<br><br>Mae derbyn Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau wedi'i gwblhau yn garreg filltir bwysig, yn dilyn gwerth bron i flwyddyn o ymgysylltu, sgwrsio a dylunio, pan wnaeth dros 1,200 o bobl gyflwyno eu syniadau, eu blaenoriaethau a rhannu eu profiadau. | |
| 2. | **Cynllun Cymunedol Trelái a Chaerau**<br><br>Cyflwynodd Becky Matyus Gynllun Cymunedol Trelái a Chaerau i'r mynychwyr.<br><br>Nodwyd bod y Cynllun Cymunedol ar bob cam wedi'i gyd-greu â thrigolion o bob oed, pobl sy'n gweithio yn Nhrelái ac yng Nghaerau, a gyda gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol o bob rhan o'r ddinas.<br><br>Ar ôl casglu bron i 4,000 o sylwadau ar draws 47 o ddigwyddiadau ymgysylltu, cafodd y materion allweddol a godwyd gan bobl eu grwpio'n chwe thema eang ar gyfer gweithredu:<br><br>1. Plant a Phobl Ifanc<br>2. Diogelwch Cymunedol a Diogelu<br>3. Sbwriel a'r Amgylchedd<br>4. Iechyd a Lles<br>5. Cyflogaeth, Safonau Byw a Chostau Byw<br>6. Cyfathrebu a Datblygu Cymunedau<br><br>Mae llawer o'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Cymunedol i wasanaethau cyhoeddus lleol eu cyflawni, tra bod eraill i grwpiau lleol ac elusennau eu harwain. Bydd y camau gweithredu yn cael eu cyflawni drwy barhau i ymgysylltu â phobl leol, gan adeiladu ar y perthnasau a'r partneriaethau a ffurfiwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i'r Cynllun Cymunedol gael ei ddatblygu. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | Cynigiodd y mynychwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hymrwymiad llawn i gyflawni'r Cynllun Cymunedol. | |
| **3.** | **Datblygu Hyb Newydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid yng Ngorllewin Caerdydd**<br><br>Cyflwynodd Mike Tate y cynlluniau ar gyfer datblygu gofod newydd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid a chymorth yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd i'r mynychwyr. Bydd y gofod yn cynnwys parthau i gyfarfod, chwarae, dysgu a chydweithio, gan gynnwys hyb digidol. Bydd y parthau yn hyblyg i annog pobl ifanc i gymryd perchnogaeth a'u defnyddio mewn ffyrdd creadigol ac arloesol.<br><br>Mae hyn yn ffurfio cam gweithredu o fewn y Cynllun Cymunedol ac yn ymateb i'r hyn y mae'r gymuned eisiau ei weld - mwy a gwell gofodau i bobl ifanc yng nghanol y gymuned. | |
| **4.** | **Diwedd**<br><br>Darparwyd lluniaeth ar ôl y cyfarfod gan yr Academi Cogyddion Iau yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, gyda grwpiau cymunedol lleol hefyd yn cael eu gwahodd i arddangos eu gwaith. | |